


# CARDIFF CAR FREE DAY
# CAERDYDD DIWRNOD DI-GAR




## #DIWRNODDIMCEIR

Ddydd Sul 12 Mai 2019, ymunwch â ni am hwyl a gweithgareddau i'r teulu yn Niwrnod Dim Ceir Caerdydd!

Cynhelir y digwyddiad rhwng 10am-4pm yng Nghanol Dinas Caerdydd ac estynnir gwahoddiad i chi ymuno â'n digwyddiadau AM DDIM. Mae'r digwyddiad y cynnwys gweithgareddau chwaraeon, arddangosiadau, cerddoriaeth fyw, dawnsio a'n Parêd Beiciau yn y prynhawn!

## YMUNWCH Â'R PARÊD BEICIO

Yn ystod Diwrnod Dim Ceir, rydym yn awyddus i weld rhai o'r beiciau mwyaf gwirion yn ymuno â'n Parêd Beiciau.

Allwch chi feddwl am ffyrdd hwyl o addurno beic?

Dewch â'ch beic wedi'i addurno i fynedfa Parc Bute gyferbyn â Boulevard de Nantes am 2:30 ac ymunwch yn y parêd beics dwl!

## HSBC UK LET'S RIDE

Un o uchafbwyntiau ein Diwrnod Dim Ceir yw ein partneriaeth gyda HSBC UK Let's Ride, 11am - 3pm. Dewch i deithio heibio rhai o dirnodau Caerdydd ar gefn beic a gweld y ddinas â llygaid newydd. Digwyddiad i'r teulu ar ffyrdd heb geir yw hwn ac felly gallwch gymryd eich amser a mwynhau'r achlysur!

Gallwch gofrestru i gael lle AM DDIM ar eich cyfer chi a'ch teulu yn **www.letsride.co.uk/events/cardiff**

HSBC UK BRITISH CYCLING LET'S RIDE

Healthy Travel Cardiff

CHILD FRIENDLY CITIES & COMMUNITIES unicef UNITED KINGDOM

CARDIFF CAERDYDD